# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 22/09/25 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 23/09/25 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 30/09/25 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Aelod Cabinet: Cyng. Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

**PWNC – Pryniant 1 Bro Eglwys, Bethel**

**PENDERFYNIAD**

I brynu 'r eiddo adnabyddir fel 1 Bro Eglwys, Bethel ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 22/9/25 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. B. Ro[signature] |

**Pwnc :**

Pryniant 1 Bro Eglwys, Bethel

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu 'r eiddo adnabyddir fel 1 Bro Eglwys, Bethel ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae'r pryniant yn angenrheidiol i hwyluso darpariaeth llety gofal maeth addas i deulu maeth sy'n gofalu am blentyn ag anabledd ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor (Mai 2015), mae angen cymeradwyaeth yr Aelod Cabinet dros Tai ac Eiddo i awdurdodi'r pryniant.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae eiddo bresennol y teulu maeth yn cael ei ystyried yn anaddas ac yn peri risg i barhau i leoli'r plentyn mewn gofal maeth yn yr eiddo yma. Mae'r eiddo yn 1 Bro Eglwys, Bethel, wedi'i adnabod fel opsiwn hyfyw oherwydd ei agosrwydd, ei addasrwydd i ddiwallu anghenion corfforol y plentyn, a'i addasrwydd cyffredinol o ran lleoliad, maint a manyleb.

Bydd cyllid ar gyfer y pryniant yn cael ei ddarparu drwy benthyciad darbodus sydd ar gael i awdurdodau lleol drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Mae cyllideb eisioes mewn lle gan yr adran ar gyfer yr ad-daliadau.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r awdurdod cynllunio lleol, cadarnhawyd nad oes angen cais newid defnydd. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu talu uwch na gwerth y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.


**Prif Swyddog Cyllid – Dewi Morgan** – "Gallaf gadarnhau fod swyddogion o'r Adran Gyllid wedi cynghori fel sy'n briodol yn ystod y broses gaffael ac wedi rhoi arweiniad fel bo'r angen ar adnabod y ffynhonnell i ariannu'r pryniant."

**Swyddog Monitro – Iwan Evans** – "Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Aelod/au Lleol –**

**Cynghorydd Sasha Williams –** "Does gen i ddim gwrthwynebiad i'r pryniant os bydd yn gartref i blentyn a theulu sydd angen y tŷ."

**Cynghorydd Iwan Huws –** "Dim gwrthwynebiad o fy safbwynt i."




# 1 Bro Eglwys, Bethel

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd